Rhif: **WG18814**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

Dyddiad cyhoeddi: **Mai 2013**

# Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru; awdurdodau lleol (ALlau) a chonsortia addysg rhanbarthol yng Nghymru; gwasanaethau lles addysg yng Nghymru; sefydliadau sydd â diddordeb mewn presenoldeb yn yr ysgol; ac aelodau o'r cyhoedd. |
| **Trosolwg** | Dechreuodd ymgynghoriad ar-lein ar gynigion i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am beidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd ar 30 Tachwedd 2012 a daeth i ben ar 22 Chwefror 2013. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i:<br>Y Gangen Lles Disgyblion<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 029 2082 1076<br>e-bost: WELLBEINGshare@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |

ISBN digidol 978 0 7504 9502 8
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18814

# Cynnwys


**Cefndir** **1**

**Yr ymgynghoriad** **2**

**Yr ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad** **3**

Cwestiwn 1 – A yw rôl yr ALl o ran cyhoeddi hysbysiadau cost yn ddigon eglur? 3

Cwestiwn 2 – A yw'r enghreifftiau yn y ddogfen ymgynghori o gyflwyno hysbysiad cosb ar gyfer colli'r ysgol yn rheolaidd yn ddigon clir? 5

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno y dylai hysbysiadau cosb fod yn opsiwn ychwanegol ymysg y dulliau eraill sydd at ddefnydd yr ALlau i fynd i'r afael ag achosion o golli'r ysgol yn rheolaidd? 7

Cwestiwn 4 – A yw'r cynigion ar gyfer cynnwys y cod ymddygiad lleol (paragraff 31) yn ddigonol? 9

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno â lefel y dirwyon a awgrymir (£60 gan gynyddu i £120 oni thelir y ddirwy o fewn 28 diwrnod)? 11

Cwestiwn 6 – Gwybodaeth ychwanegol gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad 13

# Cefndir

Yn y ddogfen *Gwella ysgolion*[1] a gyhoeddwyd yn ddiweddar, nodir cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r gyfundrefn addysg yng Nghymru sy'n cynnwys gyrru ymlaen gyda gweithgareddau i wella presenoldeb. Ar 30 Tachwedd 2012 cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddogfen i ymgynghori ynghylch y cynigion i gyflwyno system hysbysiadau cosb benodedig am golli'r ysgol yn rheolaidd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos hyd at 22 Chwefror 2013.

Yr oedd y ddogfen ymgynghori, felly, yn gosod allan gynigon Llywodraeth Cymru i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig fel ffordd amgen o fynd i'r afael ag absenoldebau mynych a diawdurdod. Roedd y cynigion hyn yn amcanu i osgoi erlyniadau hirfaith a chostus yn y llysoedd a byddai defnyddio hysbysiadau cosb mewn achosion sy'n llai cyndyn na'i gilydd, yn lleihau nifer yr erlyniadau, ac yn galluogi Gwasanaethau Lles Addysg (GLlA) yr ALl i dargedu ei amser a'i ymyriadau yn fwy effeithiol.

Fodd bynnag, wrth ystyried y strategaeth fwyaf addas ar gyfer gwella presenoldeb, yn enwedig absenoldebau diawdurdod, cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai hysbysiadau cosb, mewn rhai amgylchiadau, yn ateb cyflym, addas ac effeithiol arall o wella lefelau absenoldeb diawdurdod.

Mae ymyriadau sydd wedi'u targedu ac ymgysylltu'n effeithiol yn hollbwysig wrth geisio datrys presenoldeb gwael yn yr ysgolion. Fodd bynnag, os yw hynny'n methu â chael yr effaith a ddymunir, ac os nad yw presenoldeb yn gwella, mae nifer o opsiynau ar gael eisoes i'r awdurdodau lleol (ALlau) a'r ysgolion, er mwyn ceisio sicrhau presenoldeb rheolaidd.

Adran 444A o Ddeddf Addysg 1996 sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb y gellid eu defnyddio fel dewis arall yn hytrach nag erlyn mewn achosion o golli'r ysgol yn rheolaidd.

[1] learning.wales.gov.uk/news/sitenews/improvingschools/?lang=en

## Yr ymgynghoriad

Yn y ddogfen ymgynghori, gofynnwyd pum cwestiwn penodol am y cynigion ar gyfer gweinyddu a gweithredu system hysbysiadau cosb ac un cwestiwn cyffredinol a oedd yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddarparu sylwadau ychwanegol.

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori[2] ar draws nifer o sectorau allweddol gan gynwys amrywiaeth o rwydweithiau a'i chyhoeddi hefyd yng *Nghylchlythyr Dysg Llywodraeth Cymru*. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy anfon yn uniongyrchol at gysylltiadau o fewn Gwasanaethau Lles Addysg yr ALl, ysgolion, rhwydweithiau rhieni/gofalwyr, heddluoedd a'r sector annibynnol. Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

### Yr ymatebion a gafwyd

Cafwyd 53 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd yr ymatebion gan y sectorau a ganlyn.

| Ymatebydd | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| ALlau | 12 |
| Prifathrawon/ysgolion | 16 |
| Rhieni/gofalwyr | 12 |
| Undebau'r athrawon | 6 |
| Darparwyr hyfforddiant addysg | 1 |
| Elusennau a sefydliadau cenedlaethol | 4 |
| Heddlu | 2 |
| **Cyfanswm** | **53** |

Nid oedd rhai o'r ymatebion yn ateb y cwestiynau unigol ond yn nodi'n hytrach farn yr ymatebydd; rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain hefyd.

Yn y ddogfen hon, nodir canlyniadau'r ymgynghoriad ar sail yr ymateb a dderbyniwyd i bob cwestiwn. Nid yw'n fwriad i'r ymateb i gwestiynau unigol yn y ddogfen hon gynnwys pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr. Y nod, yn hytrach, yw dwyn sylw at y prif faterion a themâu.

[2] www.wales.gov.uk/consultations/education/nonattendancepenalty/?status=closed&lang=en

## Yr ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

### Cwestiwn 1 – A yw rôl yr ALI o ran cyhoeddi hysbysiadau cost yn ddigon eglur?

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer a ymatebodd | 53 |
| Cytuno | 23 (43%) |
| Anghytuno | 13 (25%) |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 (11%) |
| Gwag | 11 (21%) |

O'r 53 a ymatebodd, cytunodd 43 y cant fod rôl yr ALI wedi'i ddiffinio'n glir ac yr oedd chwarter y rhai a ymatebodd yn anghytuno. Nid oedd y 32 y cant a oedd yn weddill yn 'cytuno nac yn anghytuno' neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn nac wedi rhoi ymateb terfynol.

Dywedodd nifer sylweddol y byddai angen gosod cod ymddygiad manwl yn darparu gwybodaeth fwy penodol mewn canllawiau. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai cod ymddygiad cenedlaethol yn fwy priodol na chod ymddygiad lleol, er mwyn sicrhau cysondeb wrth ei weithredu ledled Cymru.

Yr oedd sylwadau'r ALI yn awgrymu y byddent yn awyddus i gyfyngu'r pŵer i gyflwyno hysbysiadau cosb i'r ALI yn unig a chefnogwyd y farn hon yn sylwadau undebau'r athrawon. Teimlai'r undebau y byddai cyflwyno hysbysiadau cosb yn cynyddu baich gwaith y prifathrawon gan eu harwain oddi wrth flaenoriaethau eraill yn yr ysgol.

Yr oedd sylwadau'r ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn nodi amrywiaeth o faterion gan gynnwys y canlynol.

- 'Mae o'n un o'r pethau hynny y cewch eich magu i wybod – os nad yw eich plentyn yn mynd i'r ysgol, mae'r rhiant yn talu'r pris a gallai fynd i'r carchar.'

- 'Awgrymir y dylai'r cylchlythyr olaf a gynhyrchir sy'n ymdrin â Hysbysiadau Cosb, gynnwys Patrwm o God Ymddygiad a Phatrwm o Lythyrau er mwyn sicrhau dull cyffelyb o gyflwyno Hysbysiadau Cosb ledled Cymru.'

- 'Dylid ceisio sicrhau eglurder ynghylch sut y bydd gwasanaeth yr heddlu yn adennill costau pan fyddant yn gweithredu fel asiantau i'r ALI wrth gyflwyno Hysbysiadau Cosb neu wrth fynychu'r llys o ganlyniad i achosion o fethu â chydymffurfio â'r rheidrwydd i dalu dirwyon o'r fath.'

- 'Pam nad oes Cod Cenedlaethol er mwyn osgoi dau ar hugain o wahanol godau? Mae angen i'r cod fod yn glir, yn dynn ac wedi'i ddiffinio drwy rifau. Sut y gallai'r ALI, gydag adnoddau sy'n prinhau, ariannu'r gwaith o weinyddu'r cynllun hwn? Os nad oes Cod Cenedlaethol ar gael yna dylid gosod y Cod ar sail consortiwm.'

- ‘Dylai ymyriadau yn yr ysgol ei hun chwarae rhan yn y broses. Dylid caniatáu i rieni ymateb i rybuddion cyn cyflwyno hysbysiadau cosb.’

- ‘Byddai’n well pe bai’r ALl yn cyflwyno’r hysbysiadau rhag amharu ar y berthynas rhwng yr ysgol a rhieni.’

## Cwestiwn 2 – A yw’r enghreifftiau yn y ddogfen ymgynghori o gyflwyno hysbysiad cosb ar gyfer colli’r ysgol yn rheolaidd yn ddigon clir?

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer a ymatebodd | 53 |
| Cytuno | 29 (55%) |
| Anghytuno | 8 (15%) |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 (11%) |
| Gwag | 10 (19%) |

Yr oedd dros hanner y rhai a ymatebodd, sef 55 y cant, yn cytuno fod yr enghreifftiau o gyflwyno hysbysiad cosb yn ddigon clir. Pymtheg y cant yn unig oedd yn anghytuno ac yr oedd 30 y cant ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu heb ateb y cwestiwn.

Yr oedd yr holl brifathrawon/ysgolion a hanner y rhieni/gofalwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno fod yr enghreifftiau yn ddigon clir. Cafwyd sylwadau gan ambell un y byddai’n rhaid wrth restr fwy terfynol ac y byddai’n rhaid gosod canran gytunedig o absenoldeb ledled Cymru.

Cytunodd dros ddau draean o ALlau fod yr enghreifftiau yn glir ond yr oedd pawb a atebodd y cwestiwn hwn yn gofyn am restr fwy gorchmynnol a chysondeb yn y drefn o gyflwyno hysbysiadau cosb ar sail Cymru-gyfan. Yr oedd hanner undebau’r athrawon yn anghytuno gyda’r enghreifftiau am y rheswm na fyddai’r enghreifftiau yn darparu cysondeb ac, yn hynny o beth, ni fyddai’r drefn ar draws awdurdodau yn gyfiawn nac yn deg.

Cytunodd mudiadau gwirfoddol fod yr enghreifftiau yn glir ond fod ystyriaethau ynghylch plant sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a chyda chyrchoedd triwantiaeth, a byddai’n rhaid rhoi ystyriaeth i’r materion hynny hefyd.

Yr oedd y rhai a wnaeth sylwadau mewn ymateb i’r cwestiwn hwn wedi nodi amrywiaeth o ystyriaethau sy’n cynnwys y canlynol.

- ‘Mae’n rhaid diffinio gwyliau yn ystod tymhorau ysgol ar draws pob awdurdod lleol. Mae yna bosibilrwydd ar hyn o bryd am wahaniaethau enfawr ar draws Cymru, ac nid yw hynny’n deg nac yn gyson.’

- ‘Mae angen diffinio’r termau, ‘rheolaidd’ a ‘gormodol’ yn glir yn yr offeryn statudol a ddefnyddir i gyflwyno gweithdrefnau HCB [hysbysiadau cosb benodol am golli’r ysgol.’

- ‘Byddai’n fuddiol hefyd cael arweiniad ar y trothwyon ar gyfer ‘cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd' i sicrhau cysondeb ym mhob un o’r awdurdodau, drwyddynt draw.’

- ‘Mae dod i benderfyniad ynghylch gallu rhiant/gofalwr yn y cyd-destun hwn yn eithriadol o anodd; er enghraifft, ni chrybwyllir amgylchiadau posibl

megis salwch, cam-drin cyffuriau a/neu alcohol, na chymhlethdodau teuluol eraill a allai effeithio ar y disgybl a'r rhiant.'

- 'Gallai rhiant/gofalwr fod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod plentyn yn mynychu'r ysgol. Fodd bynnag, os ydynt yn triwanta o'r ysgol ei hun, yna mae'n rhaid i'r ysgol gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am hyn.'

- 'Ni roddir ystyriaeth i leoliad daearyddol y sir a lleoliadau gwledig rhai ardaloedd yng Nghymru, e.e. gall llawer o deuluoedd deithio dros awr i weld eu deintydd, weithiau'n hwy, gan ddibynnu lle maent yn gweithio a lle mae ysgol eu plentyn. Dichon tybio y gallai rhai rhieni a gofalwyr orfod cymryd o leiaf 4 awr o'r gwaith os yw'r apwyntiad yng nghanol y dydd.'

## Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno y dylai hysbysiadau cosb fod yn opsiwn ychwanegol ymysg y dulliau eraill sydd at ddefnydd yr ALlau i fynd i'r afael ag achosion o golli'r ysgol yn rheolaidd?

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer a ymatebodd | 53 |
| Cytuno | 29 (55%) |
| Anghytuno | 4 (7%) |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8 (15%) |
| Gwag | 12 (23%) |

Yr oedd dros hanner y rhai a ymatebodd, sef 55 y cant, yn cytuno y dylai hysbysiadau cosb fod yn opsiwn ychwanegol i fynd i'r afael ag achosion o golli'r ysgol yn rheolaidd. Dim ond 7 y cant oedd yn anghytuno a 38 y cant 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu heb ateb y cwestiwn.

At ei gilydd, yr oedd mwyafrif y prifathrawon/ysgolion a'r ALlau yn cytuno â'r cwestiwn hwn. Cytunodd traean o'r rhieni/gofalwyr y dylai hysbysiadau cosb fod yn opsiwn ychwanegol ar gyfer mynd i'r afael ac achosion o golli'r ysgol yn rheolaidd. Un yn unig oedd yn anghytuno.

Yr oedd hanner undebau'r athrawon yn anghytuno â'r cwestiwn hwn gan eu bod o'r farn y byddai'n rhaid i system hysbysiadau cosb fod yn destun rheolaeth statudol er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu'r pwerau. Gwnaed y pwynt hefyd y byddai'n andwyol i'r berthynas rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr. Teimlai nifer o'r undebau bod y cynigion yn yr ymgynghoriad yn gadarnhaol wrth osod allan strategaeth llawer mwy o ymyriadau. Codwyd nifer o bwyntiau ond yn bennaf, nad yw o fudd i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi weld cwtogi pellach ar incwm eu cartrefi drwy hysbysiadau cosb a gyflwynir am beidio â mynychu'r ysgol.

Yr oedd y rhai a wnaeth sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi nodi amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cynnwys y canlynol.

- 'Nid gweithredu dirwyon ariannol fyddai er y bydd gorau i'r plant hyn. Dylai'r atebion i ddiffyg presenoldeb fod wedi'u seilio'n gadarn mewn dulliau i wella lles plant a phobl ifanc ac nid mewn system o ddirwyon ariannol ac erlyniadau.'

- 'Dylid edrych ar bob achos unigol cyn cymryd camau priodol. Mae'n bwysig i ysgolion ac awdurdodau lleol archwilio pob opsiwn i hyrwyddo ac annog presenoldeb.'

- 'Gall y broses fod yn araf ar hyn o bryd. Byddai hysbysiadau cosb yn sicrhau y gallwn ddelio gyda materion absenoldebau diawdurdod yn gyflym er mwyn sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol i gael addysg.'

- ‘Os yw ysgol neu awdurdod yn bygwth cyflwyno hysbysiad cosb ac yna’n peidio â gwneud, buan iawn y daw rhieni i sylweddoli oferedd y bygythiad.’

- ‘Gallai’r system hon arwain at nifer fawr o erlyniadau oherwydd y rheidrwydd i erlyn oni chaiff y ddirwy ei thalu oni bai fod rheswm dilys dros ddiddymu’r hysbysiad. Felly gallai’r polisi fod yn wrthgynhyrchiol yng nghyswllt y nod penodol hwn.’

- ‘Byddai effaith anghymesur cosb ariannol o’r fath ar deuluoedd incwm isel a’r risg gynyddol o beidio â thalu, a fyddai’n gysylltiedig ag anallu i dalu, yn cynyddu’r tebygolrwydd mai’r teuluoedd mwyaf difreintiedig fyddai dan y bygythiad mwyaf o gael eu herlyn am beidio â thalu.’

## Cwestiwn 4 – A yw'r cynigion ar gyfer cynnwys y cod ymddygiad lleol yn ddigonol?

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer a ymatebodd | 53 |
| Cytuno | 19 (36%) |
| Anghytuno | 17 (32%) |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 (13%) |
| Gwag | 10 (19%) |

Ychydig iawn o wahaniaeth a gafwyd rhwng yr ymatebwyr a oedd yn cytuno (36 y cant) a'r rhai a oedd yn anghytuno (32 y cant) fod y cynigion ar gyfer cynnwys y cod ymddygiad lleol yn ddigonol. Yr oedd 32 y cant o'r ymatebwyr 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu heb ateb y cwestiwn.

Nid oedd cytundeb neu anghytundeb clir o du'r rhieni/gofalwyr, undebau'r athrawon ac ALlau ynghylch y cynigion ar gyfer y cod ymddygiad lleol. Er bod 69 y cant o'r prifathrawon/ysgolion yn cytuno, y prif sylwadau oedd y byddai cysondeb ar draws ALlau yn allweddol i sicrhau y byddai hysbysiadau cosb yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Yn bennaf, yr oedd y rhai a ymatebodd eisiau arweiniad manylach ynghylch cynnwys a gweithrediad y cod ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn god cenedlaethol a osodwyd allan gan Lywodraeth Cymru.

Yr oedd y rhai a wnaeth sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi nodi amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cynnwys y canlynol:

- 'Ni fydd sefydlu codau lleol yn sicrhau cysondeb, tegwch a thryloywder. Nid yw'r cynigion yn ddigon gorchmynnol ac maent yn darparu gormod o lawer o ddehongliad. Mae'r awgrym y gellid teilwra'r cod i anghenion ac adnoddau lleol yn bwrw amheuaeth ddybryd dros hygrededd y cynllun o safbwynt ei weithredu'n deg ac yn gyfiawn ledled Cymru.'

- 'Dylai'r Cod Ymddygiad arfaethedig fod yn ddogfen sy'n cwmpasu Cymru Gyfan neu Gonsortia, er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder llwyr ar draws yr Awdurdodau yn enwedig yng nghyd-destun gweithio trawsffiniol a allai fod yn angenrheidiol.'

- 'Mae'r cynigion yn rhoi arweiniad da o ran y cod ymddygiad, ond byddem yn croesawu dogfen ddrafft y gallai pob awdurdodau ei defnyddio ac y gellid ei diwygio i gyd-fynd ag anghenion lleol. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer mwy o gysondeb a thegwch ymarfer i rieni a darpariaeth fwy unffurf o'r cynllun hysbysiadau cosb.'

- 'Byddai'n fuddiol iawn pe bai Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Patrwm o God Ymddygiad oherwydd y byddai hynny'n osgoi'r posibilrwydd o loteri cod post. Dylai'r cod hefyd gynnwys patrwm o lythyrau a thaflenni a dylai

gyfeirio at hawl y plentyn i gael addysg o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.'

- 'Bydd yn rhaid i'r cod gweithredu fod yn dynn a chael ei weithredu mewn ffordd gyson. Nid oes digon o fanylion am y cod. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu Cod Cenedlaethol neu lefel sydd dan arweiniad consortiwm o leiaf er mwyn i deuluoedd gael eu trin mewn ffordd gyson a theg ledled Cymru.'

- 'Os yw ALlau yn cael eu gadael i ddatblygu eu Cod Ymddygiad Lleol eu hunain, gallai fod yn rhwydd i rieni/gofalwyr eu herio'n gyfreithiol oherwydd y gellid canfod eu bod yn annheg – loteri cod post parthed y modd y caiff Hysbysiadau Cosb eu cyflwyno.'

- 'Mae angen rhagor o wybodaeth sy'n glir, yn enwedig os yw'r arweiniad ar gyfer y rhieni; faint o amser fyddai rhwng un gosb benodedig a'r llall – faint o amser a roddir i rieni i wella'r sefyllfa a pha gymorth sydd ar gael?'

## Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno â lefel y dirwyon a awgrymir (£60 gan gynyddu i £120 oni thelir y ddirwy o fewn 28 diwrnod)?

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer a ymatebodd | 53 |
| Cytuno | 18 (34%) |
| Anghytuno | 15 (28%) |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10 (19%) |
| Gwag | 10 (19%) |

Yr oedd ychydig dros draean o'r rhai a ymatebodd, sef 34%, yn cytuno gyda lefel arfaethedig y dirwyon. Yr oedd 28 y cant yn anghytuno, 38 y cant 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu heb ateb y cwestiwn.

Yr oedd rhan fwyaf y rhieni/gofalwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â lefel arfaethedig y dirwyon. Yr oedd y rhai a wnaeth sylwadau ynghylch eu hanghytundeb yn teimlo nad oedd y cyfnod ar gyfer talu'r ddirwy yn ddigon hir ac y gallai hynny effeithio ar deuluoedd incwm isel.

Yr oedd 56 y cant o'r prifathrawon/ysgolion yn cytuno gyda lefel arfaethedig y dirwyon ac yr oedd ychydig mwy o ALlau (42 y cant) yn cytuno o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn cytuno (33 y cant). Yr oedd y prif bwyntiau a godwyd gan yr ALlau yn ymwneud â'r effaith ar deuluoedd incwm isel ac achosion llys. Yn yr un modd, yr oedd hanner undebau'r athrawon yn anghytuno a dywedodd un bod £60 yn ormod i'w dalu ac y byddai'n creu rhagor o broblemau i deuluoedd incwm isel.

Nid oedd yr un o'r elusennau na'r sefydliadau cenedlaethol yn cytuno gyda lefel arfaethedig y dirwyon ac yr oeddent eisiau gwybod a fyddai opsiwn i dalu'r dirwyon mewn rhan-daliadau neu a fyddai modd defnyddio disgresiwn pe bai teulu yn cymryd camau i wella'r sefyllfa, ac a fyddai modd herio hysbysiad cosb.

Yr oedd y rhai a wnaeth sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi nodi amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cynnwys y canlynol:

- 'Cytunaf â'r lefel uchaf o ddirwy, fodd bynnag, nid wyf yn cytuno gyda'r amseriad a'r cynnydd dilynol oni dderbynnir taliad o fewn 28 diwrnod. Gallai hyn gael ei ganfod fel ffurf o anogaeth i bledio neu gyfaddef euogrwydd, heb roi ystyriaeth i amgylchiadau lliniarol.'

- 'Dylai lefel y ddirwy fod yr un fath i bawb h.y. nad yw'n cael ei ostwng i'r rhieni hynny nad ydynt yn gweithio ac sy'n derbyn budd-daliadau.'

- 'Dylid rhoi ystyriaeth i amgylchiadau teuluol. System o dalu dros gyfnod o amser i helpu'r rhai hynny sydd ar incwm isel.'

- ‘Mae’n bosib y gallai ynadon gyflwyno dirwy a fyddai’n llai na’r hysbysiad cosb sy’n digwydd yn aml ym mhrofiad awdurdodau lleol, ac mae’n bosibl na fyddai hynny, felly, yn gweithredu fel rhwystr.’

- ‘Mae goblygiadau ariannol hysbysiadau cosb, fel y maent wedi’u gosod allan yn y ddogfen ymgynghori, yn briodol ac yn dderbyniol ar hyn o bryd, ond dylid adolygu’r ffigurau hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol at y dyfodol.’

- ‘Yr oedd y costau wedi’u gosod yn y lle iawn o ystyried systemau dirwyo eraill a theimlir fod yn rhaid i’r costau weithredu fel rhwystr.’

- ‘Gobeithio y byddai cyfnod wedi’i ddiffinio rhwng y llythyr rhybuddio a chyflwyno’r Hysbysiad Cosb.’

## Cwestiwn 6 – Gwybodaeth ychwanegol gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Ceir manylion isod y sylwadau pellach a wnaed gan ymatebwyr a sylwadau lle rhoddwyd ymateb i'r ddogfen ymgynghori ond nad oeddent yn cyfeirio at gwestiwn penodol.

- 'Mae cyflwyno'r hysbysiadau yn cyfateb i dreth arall ar weithwyr incwm canolig sydd eisoes dan bwysau. Mae'n hen bryd cynnal adolygiad o gyfnodau gwyliau ysgol a dylid ystyried hynny o leiaf cyn cyflwyno dirwyon.'

- 'Rwy'n pryderu y bydd y pwerau newydd hyn yn cael eu cam-drin gan awdurdodau lleol i wneud arian rhwydd ar draul teuluoedd sydd, er enghraifft, yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod eu plant yn mynychu'n gyson, sy'n cefnogi dysgu eu plant ac sy'n rhoi ethos cadarnhaol i addysg, ond yn cael gwyliau yn ystod amser ysgol.'

- 'Mae gan brifathrawon lawer gormod o rolau a chyfrifoldebau eisoes, heb y baich ychwanegol o gyflwyno HCBau a allai arwain at iddynt gael eu herio'n gyfreithiol.'

- 'Credaf fod hyn yn syniad da cyn belled ag y bo'r awdurdod lleol/ysgol yn siwr nad yw'r plentyn yn colli'r ysgol oherwydd eu hamgylchiadau gartref.'

- 'Gallai hysbysiadau cosb fod yn fodd o wella lefelau o absenoldeb diawdurdod. Fodd bynnag, pe bai system o'r fath yn cael ei mabwysiadu, yna byddai'n rhaid cael diffiniad clir o'r amgylchiadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ar draws awdurdodau lleol.'

- 'Credaf fod hwn yn gam cadarnhaol iawn gan Lywodraeth Cymru i helpu ysgolion herio achosion cyson o absenoldeb diawdurdod. Fy mhryder i yw'r rhan y bydd yr ALl a'r potensial o gyd-drafod maith rhwng prifathrawon a'r Gwasanaethau Lles Addysg ynghylch y rhai y dylid cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig iddynt.'

- 'Ni theimlaf y dylai prifathrawon gyflwyno'r dirwyon oherwydd y byddai hynny'n achosi problemau rhwng rhieni ac athrawon mewn ysgolion.'

- 'Byddai pryder ynghylch diogelu staff rhag rhieni dig neu pe bai camgymeriad. A fyddai ysgolion yn agored i gael eu herlyn neu i gael eu siwio pe bai camgymeriadau'n cael eu gwneud?'

- 'Os yw prifathrawon yn cyflwyno dirwyon, gallai hynny gael effaith negyddol ar y berthynas rhwng ysgolion a theuluoedd. A fyddai ymddangos yn y llys yn fwy buddiol na dirwy? A ddylid rhoi taliadau lwfans teulu dan fygythiad am ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol? I le fydd yr arian

yn mynd? A fydd yr ysgolion yn elwa neu a fydd yr arian yn mynd i'r ALI? A fydd yn cael ei ailfuddsoddi mewn strategaethau i wella presenoldeb?'

- 'Mae angen esboniad cliriach o bersonau achrededig, lefel y dirwyon, gormod o amwysedd o amgylch y personau sy'n gymwys i gyflwyno'r hysbysiadau.'

- 'Un maes y dylid cyfeirio ato yn y ddogfen hon yw'r ystyriaeth drawsffiniol. Mae angen esbonio pa awdurdod fydd yn gweithredu mewn perthynas â chyflwyno Hysbysiadau Cosb i ddisgyblion sy'n byw mewn awdurdodau eraill ond sy'n mynychu ysgolion yn ardal yr Awdurdod hwn.'

- 'Mae'r ALI yn bryderus, o ystyried yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd, ac adnoddau sy'n prinhau, sut y gallem ddod o hyd i'r capasiti ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith o weinyddu hysbysiadau cosb yn enwedig os yw ysgolion, yr heddlu, personau achrededig yn cael eu cyflwyno. Gallai'r gwaith fod yn sylweddol.'

- 'Ynghyd â chyflwyno hysbysiadau cosb, teimlwn y byddai'n gyfle amserol i weithio gydag Ynadon ar raddfa genedlaethol i edrych ar safoni lefelau dirwyon/dedfrydu – pe bai'r dedfrydau'n fwy priodol pan geir rhiant yn euog o fethu â sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol (h.y. mwy o ddedfrydu cymunedol) byddai llai o angen am hysbysiadau cosb.'

- 'Dan Ddeddf Plant 1989, y Gwasanaeth Lles Addysg sy'n gyfrifol am gynorthwyo, cynghori ac ymwneud â theuluoedd a phobl ifanc i geisio sicrhau presenoldeb rheolaidd. Mae hyn yn mynd yn groes i hysbysiad cosb sy'n gosbol a heb gynnig unrhyw gefnogaeth. Mae gan y Gwasanaeth Lles Addysg eisoes gyfrifoldeb statudol i droi at gymryd camau cyfreithiol ac fe wna hynny os oes angen.'

- 'Os yw plant yn triwanta a bod y rhieni'n gallu fforddio talu'r dirwyon, ni wnaiff lawer o wahaniaeth i absenoldebau diawdurdod yn yr achosion hynny; os nad yw rhieni'n gallu fforddio'r ddirwy, dylent gael cymorth i fynd i'r afael â'r problemau, e.e. Tîm o Amgylch y Teulu sy'n gallu mynd i'r afael â sefyllfa'r teulu cyfan.'